

# Archwilio Arwyddion Tref

## Beth mae arwyddion yn gallu dweud wrthon ni?




- Mae arwyddion pentrefi, dinasoedd a threfi fel arfer yn cael eu codi gan gynghorau lleol.

- Mae arwyddion arbennig yn aml yn cael eu codi i nodi digwyddiadau arbennig megis pen-blwydd arbennig y dref neu bentref.

- Mae rhai arwyddion yn cynnwys lluniau sy'n dangos y pethau mae'r ardal yn enwog amdanyn nhw.

- Mae eraill yn defnyddio arfbais ar eu harwyddion sy'n dangos themâu hanesyddol.

- Mae nifer o arwyddion hefyd yn dweud wrthoch chi os ydy'r lle wedi ei 'efeillio' gydag unrhyw drefi eraill o gwmpas y byd – mae gefeillio yn creu cyswllt arbennig rhwng y llefydd.

## Sut mae dysgu rhagor am arwyddion trefi?

- Dechreuwch trwy edrych am arwyddion pan fyddwch yn ymweld â lleoedd newydd.

- Efallai bod yna arwydd diddorol lle rydych chi'n byw – cymerwch olwg!




- Efallai bod angen tipyn o waith ditectif i ddeall beth mae'r arwydd yn ei ddangos.

- I ddechrau'ch ymchwiliad, ceisiwch dynnu llun o'r arwydd neu gwnewch lun eich hun ohono.

- I wybod beth mae'r arwydd yn ei ddangos, mae angen i chi astudio beth yw'r lluniau. Dydy hi ddim bob amser yn glir ac maen nhw'n aml yn dangos pethau dydyn ni ddim yn eu gweld heddiw.

- Gofynnwch yn yr amgueddfa neu lyfrgell leol. Maen nhw'n gwybod llawer am hanes lleol.

- Mae nifer o wefannau* lle mae pobl yn trafod yr arwyddion hyn ac yn ysgrifennu am eu hanes.

* Peidiwch byth â defnyddio'r rhyngrwyd i chwilio heb ddweud wrth oedolyn beth rydych yn mynd i'w wneud.

© BBC




Mae'r arwydd yma o Stromness ar Ynysoedd Orkney. Mae'n dangos arfbais y dref, sy'n dangos cwch draig i nodi cysylltiadau'r ardal â'r Llychlynwyr.




Mae arwydd tref Brandon yn Suffolk yn dangos llun o 'naddwyr fflint'. Pobl oedd yn gwneud offer o garreg o'r enw fflint oedd rhain.
Roedd Brandon yn brif ganolfan naddu fflint am ganrifoedd.






Mae pentref Burnham Thorpe yn defnyddio'i arwydd i ddathlu ei gysylltiad â'r Llyngesydd Nelson, gafodd ei eni yn y pentref.






Mae'r arwydd yma o'r Alban yn dangos arfbais y dref ac yn dweud wrthoch ei bod wedi ei 'gefeillio' â lle yn Ffrainc o'r enw Maule.




Mae arwydd tref Appledore yng Nghaint yn fath o jôc wedi ei seilio ar enw'r dref.
Mae 'D'or' yn golygu 'o aur' yn Ffrangeg ac felly gallai APPLE D'OR olygu 'Afal Aur'.
Mae'r dyddiad 2000 AD yn dweud wrthoch chi bod yr arwydd wedi ei godi i nodi'r Mileniwm yn y flwyddyn 2000.

© BBC